Cynllun Deuoli'r A4119 Coed Elá

Bwletin Prosiect 2 (Mawrth 2023)

GRIFFITHS

Cynnydd Prosiect a Gwaith ar y Gweill

Drwy gydol misoedd y Gaeaf, a serch y tywydd, rydym wedi gwneud cynnydd da ar draws y prosiect. Ers ein diweddariad diwethaf, mae gwaith tir ar hyd y safle cyfan wedi parhau a bellach mae yna wahaniaeth amlwg wrth Iard Fusnes Common Sidings.

Mae'r wal gynnal goncrid sydd rhwng cadwynfeddi 210 a 310 wedi ei chodi a gwaith gosod cladin carreg yn mynd rhagddo.

Mae yna gwlferi ar draws y ffordd wedi eu gosod gyda chilfachau rhaeadru'n cael eu hadeiladu. Dechreuwyd adeiladu system ddraenio dŵr ar yr wyneb newydd sy'n cynnwys adeiladu pantiau a choredau ar hyd troed yr arglawdd rhwng cadwynfeddi 400 a 700.

Mae gwyriadau gwasanaeth ar hyd y Llwybr Teithio Llesol arfaethedig rhwng cylchfan Gorsaf y Frigâd Dân a Stink Pot Hill yn mynd rhagddynt. Fe welwch addasiad i drefniadau Rheolaeth Traffig yn yr ardal hon sy'n caniatáu gwell mynediad ac i'r gwaith allu mynd rhagddo ym mhen de ddwyreiniol y gwaith.

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym hefyd wedi tynnu amrywiaeth o rywogaethau planhigion ymledol o ardaloedd gwaith y safle a chael gwared arnynt i gyfleuster trwyddedig.

Dros y misoedd nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar gwblhau'r briffordd tua'r gogledd rhwng cylchfan Coedelái a gwaith trin DCWW cyn newid i'r rheolaeth traffig nesaf.

Gwaith paratoi ar gyfer adeiladu'r wal gynnal

Gwaith tir sy'n digwydd ger Iard Fusnes Common Sidings

Eisiau cysylltu â ni?

Gallwch gysylltu â Swyddog Cysylltu â'r Cyhoedd ar:

FF: 0330 0412 183* E: A4119CoedEly@alungriffiths.co.uk

*Codir tâl ar alwadau i'r rhif hwn ar gyfraddau galw cenedlaethol a'u cynnwys mewn cynlluniau munudau cynhwysol o linellau tŷ a ffonau symudol

Caiff galwadau eu monitro y tu allan i oriau gwaith arferol ac mae cyfleuster neges llais ar gael.

Gwefan ein prosiect: community.alungriffiths.co.uk

Diweddariadau Rheolaeth Traffig (RhT)

Mae cam 1A o'r trefniadau RhT yn parhau ar waith ac rydym yn rhagweld y bydd cam nesaf y RhT yn cael ei osod ddiwedd mis Gorffennaf 2023.

Mae'r goleuadau dros dro wrth fynedfa ein safle'n angenrheidiol er mwyn gallu mynd i mewn ac allan o'r safle'n ddiogel. Mae'r goleuadau'n cael eu rheoli â llaw yn ystod oriau gwaith i leihau'r oedi mewn traffig.

Nid oes trefniadau i gau ffyrdd yn ystod y nos ar y gweill yn y dyfodol agos.

Griffiths yn y Gymuned

Ers ein diweddariad diwethaf, mae ceisiadau wedi dod i ni gynorthwyo amrywiol brosiectau cymunedol lleol ac rydym wedi treulio'r misoedd diwethaf yn eu gwerthuso o fewn Pwyllgor Achosion Da'r prosiect i sicrhau bod trigolion a chymunedau lleol yn cael y budd mwyaf.

DIOGELWCH Y FFORDD MEWN YSGOLION...

Fel rhan o'n hymrwymiad Gwaith Cymdeithasol, rydym wedi dechrau cynnal ein menter Cyfnewid Lleoedd mewn ysgolion ledled Rhondda Cynon Taf (RCT). Wedi ei ddarparu mewn partneriaeth â Thîm Diogelwch y Ffordd Cyngor Bwrdeistref Sirol RCT, mae'r fenter y codi ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd gwybod lle mae'r pwyntiau lle na ellir gweld ar gerbydau mawr neu HGV. Ymwelwyd ag Ysgol Gynradd Gatholig Michael Sant a Chwmlai yn ddiweddar lle cafodd 134 o ddisgyblion eistedd y tu ôl i'r llyw er mwyn cael y profiad llawn. Os hoffech drefnu ymweliad â'ch ysgol, cysylltwch â ni.

CYMRU SY'N FWY CYFARTAL

Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi bod mewn trafodaethau gyda Thrafnidiaeth Cymru (TC) i ddarparu Gwerth Cymdeithasol ar y cyd yn y cymunedau yr ydym yn gweithio ynddynt. Mae Valley Veterans yn sefydliad sydd wedi ei leoli yng Nghwm Rhondda sy'n darparu cymorth a chyfeillgarwch i gyn-filwyr a'u teuluoedd ar draws cymunedau ehangach y cwm. Rydym yn falch o gydweithio gyda TC i gefnogi eu gardd goffa drwy roi deunyddiau ac oriau o'u hamser yn rhodd gan ein tîm safle. Edrychwn ymlaen at weld sut fydd y prosiect yn dod yn ei flaen.